CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 14eg o Ebrill 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Robert D Jones, Miriam Webb, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Cyng. Dylan Jarman.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Fawrth** ar gynnig Cyng.Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts.

4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Trafodwyd ymhellach ymholiadau am lwybrau, a nodwyd fod yn anodd gweld yr arwydd ar gyffordd llwybr 10 (Llanfihangel y Pennant) gyda llwybr march rhif 11. Hefyd, roedd y bwrdd picnic ger Llanllwyda angen sylw. Diolchwyd i'r Cyng Gwynedd Roberts am ei waith efo hyn.

O ran sefyllfa Stryd Llanegryn, roedd angen dwyn sylw i gar ar ffordd y Baciau, ger Capel Jeriwsalem, ac addawodd Cyng Emrys Thompson gynorthwyo efo hyn.

b) **Rheilffordd Talyllyn /Safle treftadaeth** - nodwyd y diweddaraf a'r bwriad i tim LleChi ymweld ar 12fed Mai rhwng 4-6 yp. Cytunwyd i hyn, a'r Cyfarfod Blynyddol wedyn. (roedd angen eglurhad ar faint o amser yr oedd y tim llechi ei angen)

**c) Coeden ym mynwent Llanfihangel y Pennant –** nodwyd yr ohebiaeth diweddaraf gan Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol, a oedd wedi ei ddanfon i bawb,a darllenwyd ei e-bost dyddiedig 8fed Ebrill. Cytunwyd i blannu y goeden Ywen Wyddelig yn y Gaeaf, a nodwyd y dylai'r wal derfyn wedi ei chodi erbyn hynny.

**d) Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA – gwaith GL Jones Playgrounds** – roedd balchder fod hyn wedi ei gwbwlhau cyn y Pasg. Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Miriam Webb cytunwyd i dalu yr anfoneb o £6944.40 pan fyddai i law.

**e) Llwybr yn y cae chwarae i'r anabl** – cadarnhawyd fod y gwaith wedi ei gwbwlhau, ac roedd gohebiaeth wedi ei ddosbarthu. Diolchwyd eto i'r Cyng Steve Lewis am drefnu hyn, a gofynnwyd i'r Clerc ddanfon gair o ddiolch i Tim Parsons am waith hynod daclus a phrydlon.

Nodwyd fod angen edrych ar arwyddion y cae chwarae erbyn cyfarfod nesaf. Hefyd roedd angen diolch i Kevin Jones am y gwaith gwych ym mynwent y Fedw.

f) **Ansawdd dwr/ carthffosiaeth - Abergynolwyn** - darllenwyd ymateb gan Dwr Cymru dyddiedig 25ain Mawrth. Nodwyd fod angen ymateb llawer mwy manwl, yn gofyn pam fod faniau a tanciau Dwr Cymru yn yr ardal yn rheolaidd, a bod loriau casglu deunydd gwastraff carthffosiaeth yn yr ardal bob dydd.

g) **Asedau y Cyngor –** adroddodd Emrys fod Elwyn ac yntau wedi bod archwilio y cyfan, oedd yn cynnwys yr offer cae chwarae, lloches bws, bwrdd hysbysebu (angen glanhau gwydr) , mynwentydd, a'r gofeb chwarelwyr (lle roedd angen glanhau yr ysgrifen) a'r llwybr o 1 Maesmeillion i Riverside café (angen edrych ar y ffens yno) Diolchwyd yn fawr iawn i'r ddau Gynghorydd.

5. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

6. **Materion Cyllid.**

a) **Anfonebau**; - ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Miriam Webb, cytunwyd i dalu y canlynol;

- **Y Ganolfan** - cost cyfarfodydd y Cyngor - £225
- **Tim Parsons** – gwaith yn y cae chwarae - £1073.72
- **John Arfon Owen** – agor bedd i gladdu llwch 28/1/25, ac agor bedd ar gyfer gwasanaeth 14/03/25 - cyfanswm £800

b) **Ceisiadau am arian** – nodwyd y canlynol ers y cyfarfod diwethaf, a byddai rhaid trafod y tro nesaf;

- Ambiwlans Awyr Cymru.
- Marie Curie.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

Nodwyd ymddiheuriad Cyng Beth Lawton y tro hwn.

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Adroddwyd fod y Pwyllgor Ardal nesaf ar nos Fercher 16eg Ebrill wedi ei ohirio.

**9.Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - roedd y Clerc wedi siarad gyda Ben Thomas yn dilyn y cyfafod diwethaf, ond nodwyd nad oedd unrhyw ateb i'r e-bost wedyn. Roedd angen atgoffa.

b) Nodwyd lythyr diolch gan Sian Gwenllian AS Arfon ynglyn a chefnogaeth i gael Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

c) Roedd Fforwm Cymunedau y Parc Cenedlaethol yn cyfarfod ar yr 8fed o Fai am 7yh, ac addawodd y Clerc fod yn rhan o hyn

## 10. Unrhyw fater arall

- Nodwyd fod yr afon yn erydu rhwng Penmeini a Maesywennol, ac addawodd Cyng Robert Jones godi hyn gyda Sion Wilkes.
- Roedd angen trafod cyflwr yr hen bont wrth Tyn y Fach yn y cyfarfod nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN NOS LUN 12fed Mai 2025 , 6.00y.h.**

..............................................................................................................................

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 14th of April 2025 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Robert D Jones, Miriam Webb, and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Cllr. Dylan Jarman.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matters on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 10th of March were confirmed on the proposal of Cllr. Eleri Puw and seconded by Cllr Gwynedd Roberts.

4. Matters arise

a) Highways/pathways issues.

Inquiries about paths were further discussed, and it was noted that it was difficult to see the sign at the junction of route 10 (Llanfihangel y Pennant) with bridleway route number 11. Also, the picnic table near Llanllwyda needed attention. Cllr Gwynedd Roberts was thanked for his work with this.

Regarding Llanegryn Street, attention needed to be drawn to a car on the Baciau road, near Jerusalem Chapel, and Cllr Emrys Thompson promised to help with this.

b)Talyllyn Railway / Heritage site - the latest was noted and the intention for the LleChi team to visit on 12th May between 4-6pm. This was agreed, and the Annual Meeting afterwards. (clarification needed on how much time the slate team needed)

c) A tree in Llanfihangel y Pennant cemetery - the latest correspondence from Rhydian Roberts from the National Park was noted, which had been delivered to everyone, and his email dated 8th April was read. It was agreed to plant the Irish Yew tree in the Winter, and it was noted that the boundary wall should have been erected by then.

d) The inspection of the playground by ROSPA - the work of GL Jones Playgrounds - there was pride that this was completed before Easter. On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Miriam Webb it was agreed to pay the invoice of £6944.40 when it was received.

e) Path in the playground for the disabled - it was confirmed that the work had been completed, and correspondence had been distributed. Cllr Steve Lewis was thanked again for organizing this, and the Clerk was asked to send a word of thanks to Tim Parsons for extremely neat and prompt work.

It was noted that the playground signs need to be looked at by the next meeting. We also needed to thank Kevin Jones for the great work at the Fedw cemetery.

f) Quality of water/sewerage - Abergynolwyn - a response from Dwr Cymru dated 25th March was read. It was noted that a much more detailed response was needed, asking why Dwr Cymru vans and tanks were in the area regularly, and that there were sewerage waste material collection in the area every day.

g) The Council's assets - Emrys reported that he and Elwyn had inspected everything, which included the playground equipment, bus shelter, advertising board (glass needed cleaning), cemeteries, and the quarrymen's memorial (where the writing needed cleaning) and the path

from 1 Maesmeillion to Riverside café (need to look at the fence there) The two Councilors were thanked very much.

5. Planning Matters

There were no applications received.

6. Finance Matters.

a) Invoices; - on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Miriam Webb, it was agreed to pay the following;

- Y Ganolfan - cost of Council meetings - £225
- Tim Parsons – work in the playground field - £1073.72
- John Arfon Owen - opening a grave to bury ashes 28/1/25, and opening a grave for a service 14/03/25 - total £800

b) Requests for money - the following was noted since the last meeting, and would have to be discussed next time;

- Wales Air Ambulance.
- Marie Curie.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

Cllr Beth Lawton's apology was noted this time.

8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

It was reported that the next Area Committee on Wednesday evening 16th April had been postponed.

9. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant cemetery matters - the Clerk had spoken to Ben Thomas following the last appointment, but it was noted that there was no reply to the email afterwards. It needed reminding.

b) A letter of thanks was noted from Sian Gwenllian MS Arfon regarding support to have a Dental School in Bangor.

c) The National Park Communities Forum was meeting on the 8th of May at 7pm, and the Clerk promised to be part of this

10. Any other matter

- It was noted that the river was eroding between Penmeini and Maesywennol, and Cllr Robert Jones promised to raise this with Sion Wilkes.
- The condition of the old bridge at Tyn y Fach needed to be discussed at the next meeting.

DATE OF NEXT MEETING;   ANNUAL GENERAL MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN

MONDAY 12th May 2025, 6.00 p.m.